

Tasg 1

Ysgol Glan Clwyd

1. Beth oedd yn arbennig am Ysgol Glan Clwyd pan agorwyd hi?
2. Pa **dri** pheth roedd Dr Haydn Williams eisiau eu cael mewn ysgol uwchradd Gymraeg?
3. A oedd yr addysg yn hollol Gymraeg? Dewiswch a chopiwch y geiriau sy'n dangos hyn.
4. Pam cwmpodd y niferoedd yn yr ysgol am gyfnod?
5. Sut bydd yr ysgol yn dynodi'r ffaith fod adeilad newydd yn cael ei agor?
6. Pa ddylanwad a gafodd agor Ysgol Glan Clwyd ar addysg Gymraeg yng ngweddill Cymru?
7. Mewn llawer o ardaloedd, mae ymgyrchu mawr wedi gorfod digwydd cyn i'r cyngor agor ysgolion Cymraeg. Sut roedd yr hyn a ddigwyddodd yn sir y Fflint yn wahanol?

8. **Dewiswch a chopïwch** y geiriau neu'r ymadroddion sydd â'r un ystyr â:

- i) perswadio
- ii) heb fod ymhell o
- iii) llwyddodd
- iv) rhifau
- v) naws
- vi) canlynol
- vii) pwysig iawn, hanfodol

Ysgrifennwch chwe brawddeg gydag un o'r geiriau neu'r ymadroddion uchod ym mhob un.

9. Edrychwch ar y cynnydd yn niferoedd y disgyblion rhwng 1969 ac 1980. Beth yw canran y cynnydd?

10. Edrychwch ar hyn eto: ... bydd yr ysgol yn cynllunio **gwisg ysgol** newydd **i'w gwisgo** ...
Cyfuniad o **i + ei** yw **i'w**. Mae **ei** yn cyfeirio'n ôl at 'gwisg ysgol'. Enw **benywaidd** yw gwisg, felly does dim angen treiglo 'gwisgo' yma, (er bod treigladd **llaes** ar ôl **ei** benywaidd, ac mae 'h' o flaen llafariad).

Ond, cymerwch enghraifft fel: ... bydd yr ysgol yn cynllunio **bathodyn** newydd **i'w wisgo**...
Enw **gwrywaidd** yw bathodyn, felly mae'r **i'w (i + ei)** yn cyfeirio'n ôl ato, ac mae treigladd meddal ar ôl ei' gwrywaidd.

Gydag enw **lluosog**, ... bydd yr ysgol yn cynllunio menig newydd **i'w gwisgo**...
Cyfuniad o **i + eu** yw **i'w**. Does dim treigladd ar ei ôl, ond mae 'h' yn dod cyn llafariad.

Dewiswch yr ateb cywir ym mhob un o'r enghreifftiau hyn:

- i) Mae llawer o waith **i'w wneud / i'w gwneud**.
 - ii) Rwyf wedi meddwl am gân newydd **i'w canu / i'w ganu / i'w chanu**.
 - iii) Mae gormod o bynciau **i'w astudio / i'w hastudio**.
 - iv) Byddaf yn prynu bag newydd **i'w roi / i'w rhoi i Carys**.
 - v) Bydd rhaid anfon neges at y disgyblion **i'w wahodd / i'w gwahodd i'r parti**.
 - vi) Mae'r neges yn barod **i'w anfon / i'w hanfon**.
 - vii) Mae'r llyfr yn barod **i'w anfon / i'w hanfon**.
 - viii) Ydy'r cacennau wedi oeri digon **i'w fwyta / i'w bwyta**?
 - ix) Mae'r anrheg hon yn rhy ddrud **i'w prynu / i'w brynu / i'w phrynu**, gwaetha'r modd.
 - x) Does neb **i'w beio / i'w feio** ond fi fy hun.
11. Ydych chi'n gwybod beth yw hanes eich ysgol chi? Ymchwiliwch! Efallai fod peth gwybodaeth ar wefan yr ysgol. Mae'r llyfr *Gorau Arf*, lolo Wyn Williams (golygydd) yn cynnwys gwybodaeth am bob ysgol a gafodd ei sefydlu hyd at 2000. Chwiliwch am y llyfr yn llyfrgell yr ysgol.
12. Mae pobl wedi ymgyrchu dros sefydlu ysgolion Cymraeg, ac mae hynny'n dal i ddigwydd mewn rhai ardaloedd. Oes achos sy'n eich tanio chi?

A ydych chi'n ymgyrchu dros rywbeth, neu wedi gwneud hynny yn y gorffennol? Dros beth y byddech chi'n fodlon ymgyrchu?